CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

226/03

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

# ARHOLIAD LLAFAR

# Dydd Mercher, 29 Mawrth 2006

# HAEN SYLFAENOL

## CYFARWYDDIADAU I'R YMGEISYDD

**Tasg Grŵp (trafodaeth: dim mwy na 20 munud)** **40 marc**

**CYFNOD PARATOI**

- Caniateir hyd at 20 munud i chi baratoi ar gyfer y drafodaeth.
- Ni chaniateir defnyddio yn ystod y cyfnod paratoi unrhyw nodiadau a dderbyniwyd o flaen llaw.
- Caniateir i chi wneud nodiadau byr eich hunan yn ystod y cyfnod paratoi.

**CYFNOD ARHOLIAD**

- Trafodwch y cwestiynau gydag aelodau eraill eich grŵp gan gynnig rhesymau a thystiolaeth i gadarnhau eich gosodiadau.
- Caniateir i chi ddefnyddio'r nodiadau cyfnod paratoi yn unig.

***Ni chaniateir i chi ddefnyddio'r testun print na geiriadur yn yr arholiad nac yn ystod y cyfnod paratoi.***

***Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad. (Mae hyn yn cynnwys y cyfnod paratoi.)***

**TRAFOD LLUNYDDIAETH**

**Naill ai:** **Y Mynydd Grug**

**Neu:** **Dihirod Dyfed (Pechod Mary Prout; Wil Cefn Coch; Cythraul Cwrw)**

Pa **gymeriadau** yn y ffilm/ffilmiau a welsoch a wnaeth fwyaf o argraff arnoch chi?

Trafodwch drwy:

(i) sôn yn fanwl am y cymeriadau a'r rheswm y maent yn aros yn y cof; [18]

(ii) sôn sut y mae'r cynhyrchydd wedi creu golygfeydd effeithiol gyda'r cymeriadau hyn;

gallwch gyfeirio at elfennau fel

- cerddoriaeth a sain
- gwisgoedd
- colur
- deialog
- gwaith camera
- goleuo ac ati; [18]

(iii) rhoi eich barn am bwysigrwydd y cymeriadau hyn o fewn y ffilm / ffilmiau. [4]

*Ceisiwch gyfeirio hefyd at y llyfr yn ystod eich trafodaeth.*

*Cofiwch roi rhesymau dros eich barn.*

**[40]**